------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 46(v2)

### Datganiad gan y Llywydd: Penodi Prif Weithredwr a Chlerc Newydd y Cynulliad

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Ymchwiliadau a gwaith ymgysylltu ar gyfer y dyfodol

(30 munud)

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6191**

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
Hefin David (Caerffili)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn i drychineb gwaed halogedig y 1970au a'r 1980au.

2. Yn nodi bod 70 o bobl yng Nghymru wedi marw o HIV a Hepatitis C a gawsant wrth gael gwaed halogedig neu gynnyrch gwaed halogedig a bod eraill yn dal i fyw gyda'r heintiau hyn.

3. Yn cydnabod bod perthnasau mewn galar yn byw gyda chanlyniadau'r drychineb hon.

4. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymddiheuro ym mis Mawrth 2015 i bobl a gafodd eu heintio gan driniaeth â gwaed halogedig ac yn nodi ymhellach nad yw'r teuluoedd y mae hyn yn effeithio arnynt wedi cael atebion llawn ynglŷn â'r rhesymau pam y caniatawyd i hyn ddigwydd a'u bod yn dal i ymgyrchu dros gyfiawnder.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6215** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r tueddiad rhyngwladol i werthuso dinasoedd ar feini prawf sy'n ymwneud â'r gallu i fyw ynddynt, pa mor wyrdd ydynt a'u cynaliadwyedd.

2. Yn credu bod dinasoedd ac ardaloedd trefol yn sbardun allweddol ar gyfer gwydnwch a ffyniant economaidd.

3. Yn cymeradwyo gwerth yr amcanion a'r strategaethau canlynol o ran hybu adnewyddu ac adfywio trefol:

a) mynediad at ofod glân ac agored:

b) argaeledd tai fforddiadwy;

c) rheoli traffig yn effeithiol a darparu trafnidiaeth gyhoeddus o safon uchel;

d) datblygu llwybrau trafnidiaeth llesol, gan gynnwys ailddynodi rhai llwybrau ar gyfer beicio a cherdded;

e) safonau uchel o ran ansawdd yr aer;

f) buddsoddi yn ansawdd dylunio adeiladau cyhoeddus a nodweddiadol;

g) cynnwys dinasyddion mewn cynlluniau gwella amwynderau, o ran dinas gyfan ac ar sail cymdogaeth; a

h) bod y cysyniad o ddinas-ranbarth yn ganolog i adfywio ardaloedd cefnwlad, fel Cymoedd y De.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru yn Symud Cymru Ymlaen ar gyfer datblygu economi gryfach a thecach ac yn cydnabod pwysigrwydd y mesurau i ddatblygu economïau rhanbarthol cynaliadwy sy'n gwasanaethu pob cymuned ledled Cymru.

'Symud Cymru Ymlaen'

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6214** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r tro cyntaf, a'r unig dro yn aml, y daw cleifion i gysylltiad â'r GIG yw drwy bractis cyffredinol.

2. Yn gresynu bod practisau cyffredinol, er gwaethaf hyn, yn cael llai nag wyth y cant o'r gyllideb iechyd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu practisau cyffredinol drwy roi buddsoddiad sylweddol o ran adnoddau, pobl a seilwaith.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod gan y rhan fwyaf o gleifion gyflyrau cronig y gellir eu rheoli orau yn y gymuned, ac mae hyn yn galw am ofal sylfaenol cryf, gydag ymarfer cyffredinol yn ganolog i hynny.

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan ar ôl Pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod y graddau y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru a'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth â meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill i wella gofal ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru.

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod cyllidebau gofal cymdeithasol wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol, ac yn gresynu bod rôl gofal cymdeithasol o ran cyfrannu at wasanaethau gofal iechyd sylfaenol wedi cael ei diystyru.

**Gwelliant 4.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y gostyngiad yn nifer y meddygon teulu yn ystod y blynyddoedd diwethaf; yn nodi y bydd angen mwy o lawer o feddygon teulu i gydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill mewn gwasanaeth gofal sylfaenol cryf; yn credu y dylai gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ategu a chefnogi'r gwasanaeth a gaiff ei ddarparu gan feddygon teulu, ac na ddylid eu defnyddio i wneud y gwaith yn eu lle.

**Gwelliant 5.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod llawer o feddygon teulu wedi dewis dod i weithio yng Nghymru o'r tu allan i'r DU, ac y gallent ddewis gadael os yw'r drwgdeimlad parhaus tuag at weithwyr mudol yn parhau.

**Gwelliant 6.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gofal sylfaenol, gofal eilaidd, a gofal cymdeithasol yn cydweithio i gynorthwyo cleifion i reoli eu cyflyrau yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar atal derbyniadau ysbyty; gan gydnabod y bydd angen cynllunio hirdymor priodol ar gyfer hyn, buddsoddi mewn seilwaith a pholisïau ehangach o du'r llywodraeth i hybu iechyd da.

**Gwelliant 7.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro):]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rhan bwysig y mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn ei chwarae o ran sicrhau y caiff gofal sylfaenol ei ddarparu'n effeithiol.

**Gwelliant 8.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi data perfformiad rheolaidd ar gyfer gofal sylfaenol, gyda dangosyddion perfformiad a thargedau yn cael eu sefydlu mewn cydweithrediad â gweithwyr iechyd proffesiynol.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6213** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Her ailgylchu i fusnesau a thrigolion yng Nghymru wledig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Ionawr 2017 i'w hateb ar 25 Ionawr 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fanteision economaidd posibl morlyn llanw yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0114(EI)

2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â thwf busnesau yng Nghymru? OAQ(5)0111(EI)

3. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl twristiaeth ffydd? OAQ(5)0107(EI)

4. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i leihau tagfeydd yng nghanol trefi? OAQ(5)0115(EI)

5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i wella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer pobl anabl? OAQ(5)0116(EI)

6. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith critigol yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0105(EI)

7. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fynediad pobl ifanc at drafnidiaeth? OAQ(5)0113(EI)

8. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gasglu mannau cychwyn a chyrchfannau'r 43 y cant o deithiau cerbydau o amgylch Casnewydd o lai na 20 milltir? OAQ(5)0104(EI)

9. David Melding (Canol De Cymru): Pa fesurau sydd yn eu lle i wella cynhyrchiant economi Cymru? OAQ(5)0109(EI)

10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella trafnidiaeth yn ne-ddwyrain Cymru yn 2017? OAQ(5)0101(EI)

11. Nathan Gill (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0106(EI)

12. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella twristiaeth yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0112(EI)

13. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer datblygu economaidd teg ar draws Cymru? OAQ(5)0110(EI)**W**

14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am welliannau seilwaith arfaethedig yn ninas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0103(EI)

15. Nick Ramsay (Mynwy): Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach yn Sir Fynwy? OAQ(5)0108(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

1. Nathan Gill (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y rhaglen wella ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(5)0109(HWS)

2. Lee Waters (Llanelli): Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i ehangu'r amrywiaeth o weithwyr proffesiynol perthynol mewn gwasanaethau iechyd sylfaenol? OAQ(5)0108(HWS)

3. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0099(HWS)

4. Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud ar y cynnydd i leihau nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty yn dilyn damweiniau ac achosion brys? OAQ(5)0102(HWS)

5. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau nifer yr achosion o gamddefnyddio alcohol yng Nghymru? OAQ(5)0106(HWS)

**6.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau amseroedd aros ysbytai yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0114(HWS)

**7.** Michelle Brown (Gogledd Cymru): Pa gynnydd sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn cysylltiad ag amseroedd aros yn ymwneud â chanser? OAQ(5)0105(HWS)

**8.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am pa gyfran o feddygon teulu a gaiff eu cyflogi'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol? OAQ(5)0103(HWS)

**9.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(5)0098(HWS)

**10.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? OAQ(5)0104(HWS)

**11.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr amseroedd aros presennol ar gyfer triniaeth orthopedeg yng Nghymru? OAQ(5)0115(HWS)

**12.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am asesiadau risg byrddau iechyd lleol? OAQ(5)0112(HWS)**W**

**13.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo pobl yng Nghymru sydd â dementia? OAQ(5)0100(HWS)

**14.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau ymyriadau wedi'u targedu sy'n gymwys i Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg? OAQ(5)0101(HWS)

**15.** Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y driniaeth a gaiff ei chynnig gan y GIG i gleifion sydd â sglerosis ymledol? OAQ(5)0111(HWS)